Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Coedwigaeth yng Nghymru

Hysbysiad Hwylus — Tachwedd 2013

## Pwy yw perchennog coedwigoedd Cymru?

Mae **305,000 hectar o goetir** yng Nghymru, sy'n cyfrif am tua **10 y cant o gyfanswm y DU**, sef 3.13 miliwn hectar. [1] Cymru yw un o **wledydd Ewrop sydd â'r nifer lleiaf o goed**, gan fod coetir yn cyfrif am **15 y cant o arwynebedd tir Cymru yn unig**, o gymharu â chyfartaledd yr UE, sef 37 y cant.[2]

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yn rheoli **37 y cant** o goetir Cymru, sy'n cyfateb i 114,000 hectar. Mae **190,000 hectar** mewn **perchnogaeth breifat**[3]. Amcangyfrifir bod y coetiroedd hyn yn cynnwys 252 miliwn o goed conwydd, 92 miliwn o goed llydanddail a 38 miliwn o rywogaethau coed bach[4].

Mae arwynebedd coetiroedd Cymru wedi aros yn **gymharol sefydlog dros yr 20 mlynedd diwethaf**, **er y bu cynnydd o 5 y cant rhwng 2001 a 2012.**[5]

O blith holl goetir Cymru, mae **139,000 hectar, neu 45 y cant**, wedi'i ddosbarthu fel coetir ardystiedig[6][7].

## Faint o blannu neu ailblannu sydd wedi digwydd yng Nghymru?

Fel y nodwyd uchod, mae maint coetiroedd Cymru wedi aros yn gymharol sefydlog dros y 20 mlynedd diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o goed newydd sy'n cael eu plannu yng Nghymru yn ailgyflenwi coetiroedd a dorrwyd i lawr.

Mae cyfraddau creu coetir yng Nghymru wedi cynyddu'n ddiweddar, ar ôl dirywiad hir. Yn **2012-13, cafodd 800 hectar o goetir llydanddail newydd** a 100 hectar o goed conwydd eu plannu yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â **500 hectar o goetir llydanddail newydd a blannwyd yng Nghymru** yn 2005[8]. Yn Lloegr, cafodd 2,600 hectar o goetir llydanddail newydd eu plannu yn 2012-13[9]; ac yn yr un cyfnod, plannwyd 1,700 hectar o goed conwydd a 5,300 hectar o goetir llydanddail yn yr Alban. Cafodd 200 hectar o goetir llydanddail newydd eu plannu yng Ngogledd Iwerddon. Yn 2012, cafodd **1,400 hectar o goed conwydd a 600 hectar o goetir llydanddail** eu hailblannu yng Nghymru[10].

---

[1] Comisiwn Coedwigaeth, ***Woodland Area, Planting and Restocking, Rhifyn 2013,*** Mehefin 2013 [fel ar 28 Mehefin 2013]
[2] Llywodraeth Cymru, ***Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed,*** 2009 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[3] Llywodraeth Cymru, ***Dangosyddion Coetiroedd i Gymru: Wedi'w adolygu mis Mehefin 2012*** [fel ar 28 Mehefin 2013]
[4] Comisiwn Coedwigaeth, ***Forestry Statistics 2010: Woodland area and planting - National Inventory of Woodland and Trees (GB),*** [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[5] Comisiwn Coedwigaeth, ***Woodland Area, Planting and Restocking, Rhifyn 2013,*** Mehefin 2013 [fel ar 28 Mehefin 2013]
[6] ibid
[7] Mae coetir ardystiedig yn goetir sydd wedi'i archwilio'n annibynnol yn erbyn Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig.
[8] Comisiwn Coedwigaeth, ***Woodland Area, Planting and Restocking, Rhifyn 2013,*** Mehefin 2013 [fel ar 28 Mehefin 2013]
[9] ibid
[10] ibid

O dan y cynllun *Plant!*, ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru i blannu coeden ar gyfer pob plentyn a anwyd neu a fabwysiadwyd yng Nghymru ers 1 Ionawr 2008. Mae bron 200,000 o goed wedi'u plannu mewn saith lleoliad ledled Cymru ers i'r cynllun ddechrau[11]. Amcangyfrifodd Llywodraeth flaenorol Cymru y byddai'r cynllun yn arwain at blannu tua 18 hectar o goetir bob blwyddyn.[12]

Yn ogystal, ar 16 Mawrth 2010, cyhoeddodd y cyn Weinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones, ymrwymiad i **blannu 100,000 hectar o goetir newydd yng Nghymru erbyn 2020**. Cefnogir hyn gan **Gynllun Coetir Glastir[13]**. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i ffermwyr a thirfeddianwyr mewn ardaloedd penodol o Gymru gael cyllid ar gyfer plannu a chynnal coetir newydd ar eu tir[14]. Mewn datganiad ym mis Rhagfyr 2012, nododd Alun Davies, y cyn Ddirprwy Weinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd:

> Mae 441 o gontractau wedi'u harwyddo o dan Gynllun Creu Coetiroedd Glastir, sy'n cynrychioli ymrwymiad i blannu 1,452ha o goed newydd. Mae tua £1.8 miliwn wedi'i dalu hyd yma. Mae'r contractau Rheoli Coetiroedd Glastir cyntaf hefyd wedi'u harwyddo ac erbyn dechrau 2014, rwy'n rhagweld y bydd 270 o gytundebau ar waith[15].

Ariennir gynllun Glastir drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r Cynllun presennol yn para rhwng 2007-2013 a chaiff ei ddisodli gan Gynllun newydd ar gyfer 2014-2020 ar ôl diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn 2013.

Rhwng 2010 a mis Mawrth 2013, cafodd 2,200 hectar o goetir eu creu yng Nghymru[16]. Yn ei adroddiad ar gyfer 2013, nododd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd y byddai angen i'r cyfraddau creu coetir gynyddu i gyrraedd targed 2020[17].

**Cyfanswm yr arwynebedd coetir a gollwyd** yng Nghymru rhwng 1997-98 a 2009-10 oedd **133 hectar;** o hyn, cafodd 52 hectar ei golli o ganlyniad i **ddatblygiadau chwareli**, 33 hectar o ganlyniad i **ddatblygiadau cyrsiau golff** a 25 hectar o ganlyniad i **adeiladau preswyl[18]**.

## Beth yw cyfraniad economaidd y sector coedwigaeth yng Nghymru?

Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru, *'Coetiroedd i Gymru'*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010 yn nodi bod y sector coedwigoedd yng Nghymru yn cyfrannu **tua £429 miliwn i'r economi cenedlaethol a'i fod yn cyflogi bron i 9,000 o bobl[19]**. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar gynhyrchu pren yn unig ac nid yw'n cynnwys hamdden, twristiaeth, cynhyrchu ynni a chludo pren.

Mae cyhoeddiad *'Dangosyddion Coetiroedd yng Nghymru (Diwygio ym mis Mehefin 2012)'* Llywodraeth Cymru yn rhoi dadansoddiad o'r swyddi yn y sector coedwigaeth. O'r 9141 o gyflogeion a amcangyfrifwyd yn 2008, roedd 821 yn ymwneud â choedwigaeth, torri a thrin coed a gwasanaethau cysylltiedig, 1356 yn ymwneud â phrosesau sylfaenol a 2003 yn ymwneud â phrosesau eilaidd neu weithgynhyrchu nwyddau pren. Roedd dros hanner yr holl gyflogeion, sef 4781, yn ymwneud â gweithgynhyrchu mwydion coed a chynhyrchion papur. Roedd y gweddill (331) wedi'u cyflogi gan fasnachwyr pren.[20]

---

[11] Cyfoeth Naturiol Cymru, ***Plant! Yn dathlu ei bumed pen-blwydd***, Mai 2013 [fel ar 1 Gorffennaf 2013]
[12] Llywodraeth Cymru, Gwefan ***Plant!*** [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[13] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru: ***Glastir yn "hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chynhyrchu bwyd cynaliadwy",*** 16 Mawrth 2010, [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[14] Llywodraeth Cymru, gwefan ***Coetiroedd Glastir***, [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[15] Llywodraeth Cymru, Alun Davies, ***Y Diweddaraf am Glastir***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 7 Rhagfyr 2012 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[16] Comisiwn Coedwigaeth, ***Woodland Area, Planting and Restocking, Rhifyn 2013***, Mehefin 2013 [fel ar 28 Mehefin 2013]
[17] Pwyllgor Newid yr Hinsawdd, ***Progress reducing emissions and preparing for climate change in Wales***, Ionawr 2013 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[18] Comisiwn Coedwigaeth, ***National Forest Inventory Woodland Area Statistics: Wales***, Mawrth 2011 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[19] Llywodraeth Cymru, **Cynllun Gweithredu 2010 - 2015 Coetiroedd i Gymru**, [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[20] Comisiwn Coedwigaeth, ***Dangosyddion Coetiroedd i Gymru – Diwygio ym mis Mehefin 2012***, [fel ar 12 Tachwedd 2013]

Yn 2011 roedd **16 o felinau llifio yng Nghymru**. Yn 2000, roedd 27 ohonynt. Mae'r melinau llifio hyn yn cyflogi 256 o bobl yn uniongyrchol a 7 o bobl drwy gyflogaeth gontract[21].

Amcangyfrifodd astudiaeth effaith economaidd o goedwigoedd Prydain a gynhaliwyd ar ran Comisiwn Coedwigaeth Prydain yn 2004 y gallai'r sector coedwigaeth yng Nghymru gyfrannu **1.2 y cant o CMC Cymru** dros y 20 mlynedd nesaf, **os bydd tueddiadau presennol yn parhau[22]**.

## Pa mor bwysig yw coetiroedd i'r amgylchedd yng Nghymru?

Mae strategaeth '*Coetiroedd i Gymru'* Llywodraeth Cymru yn nodi **nad yw llawer o'r coetir cymysg yng Nghymru yn cael ei reoli'n weithredol**, gan nad yw'r incwm o'r pren yn unig yn ddigon i dalu am y gwaith rheoli angenrheidiol[23].

Mae tua **5 y cant o goetiroedd Cymru** wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd i gadwraeth natur yn rhyngwladol ac yn genedlaethol. Dim ond **26 y cant o'r coetiroedd dynodedig hyn sydd mewn cyflwr ffafriol-fel y'i gelwir-ac mae 21 y cant mewn cyflwr anffafriol[24]** ond yn **dangos arwyddion o wella[25]**. Targed Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod 95 y cant o goetiroedd Cymru sydd wedi'u dynodi yn Safleodd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn cyrraedd cyflwr ffafriol erbyn 2015[26].

*Coetir a newid yn yr hinsawdd*

Amcangyfrifodd asesiad o gyfanswm y carbon sy'n cael ei storio gan goedwigoedd yn y DU mai **cyfanswm y storfa garbon mewn coedwigoedd yn 2010 oedd 893 miliwn tunnell, sef cynnydd o 1990, pan roedd y cyfanswm yn 803 miliwn tunnell[27]**.

## Sut caiff coedwigoedd Cymru eu rheoli ar hyn o bryd?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn gyfrifol am weithredu polisïau Llywodraeth Cymru ar goetiroedd ac am reoleiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â choedwigoedd yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn atebol i Lywodraeth Cymru drwy'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Mae **Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr** yn gyfrifol am weithgareddau ledled y DU fel datblygu safonau coedwigaeth cynaliadwy a chynrychioli barn Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig ar faterion yn ymwneud â choedwigaeth ryngwladol.

Ar **1 Chwefror 2011**, cyhoeddodd y cyn Weinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones, y byddai rhai **newidiadau yn cael eu gwneud** i'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn **rheoli'r ystad goedwig yng Nghymru[28]**. Cyhoeddodd y cyn Weinidog y byddai hyn yn caniatáu i'r Llywodraeth fabwysiadu **dull mwy deinamig** o reoli'r ystad goedwig. Nododd hefyd y byddai hyn yn **caniatáu iddynt werthu rhai ardaloedd bach o goetir** o'r ystad a allai roi mwy o fudd i'r cyhoedd o dan berchnogaeth y trydydd sector neu'r sector preifat, ond **na fyddai hyn yn arwain at leihad ym maint ystad goedwig y Llywodraeth, gan ei bod yn bwriadu prynu rhai ardaloedd o goetir sydd o dan berchnogaeth breifat ar hyn o bryd**. Cynyddodd y coetir yng Nghymru a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ychydig, o 115,000 hectar

[21] Comisiwn Coedwigaeth, ***Forestry Statistics 2012,*** gwefan, [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

[22] Congentsi & PACEC, ***The Economic Impact of British Forestry***, Ionawr 2004 [fel ar 28 Chwefror 2011]
[23] ibid
[24] ibid
[25] Caiff safleoedd a ddynodwyd ar gyfer eu pwysigrwydd i gadwraeth natur eu hasesu yn ôl eu cyflwr. Os yw safle mewn cyflwr ffafriol, mae ei nodweddion pwysicaf yn cael eu gwarchod ac maent yn gweithio.
[26] Llywodraeth Cymru, ***Woodlands for Wales: The Welsh Assembly Government's Strategy for Woodlands and Trees,*** 2009 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[27] Comisiwn Coedwigaeth,***Forestry Statistics 2010- UK Forests and Climate Change***, gwefan, [fel ar 2 Gorffennaf 2013]
[28] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Elin Jones (Gweinidog dros Faterion Gwledig), ***Coedwigaeth yng Nghymru***, Datganiad y Cabinet ar Lafar, 1 Chwefror 2011 [fel ar 2 Gorffennaf 2012]

yn 2011 i 117,000 hectar yn 2013[29].

## Beth yw'r clefydau coed sy'n effeithio ar goedwigoedd Cymru?

Mae coed yn y DU o dan fygythiad gan sawl clefyd, gan gynnwys clefyd coed ynn a *Phytophthora ramorum*, sy'n bennaf yn peri i goed llarwydd farw. Canfuwyd clefyd coed ynn (*Chalarafraxinea*) am y tro cyntaf yn y DU yn Lloegr ym mis Chwefror 2012 mewn coed a fewnforiwyd o'r Iseldiroedd[30]. Cafodd ei ganfod yn yr amgylchedd ehangach yn Lloegr ym mis Hydref 2012. Canfuwyd yr achos cyntaf o glefyd coed ynn yn yr amgylchedd ehangach[31] yng Nghymru ym mis Mai 2013[32]. Ers 11 Hydref 2013, mae 20 achos o glefyd coed ynn yng Nghymru wedi'u canfod mewn safleoedd sydd newydd eu plannu ac un yn yr amgylchedd ehangach[33]. Mae 19,000 hectar o goed ynn yng Nghymru, sy'n cynrychioli 7.3 y cant o gyfanswm y coetiroedd llydanddail ac mae'r rhywogaeth yn bwysig am ei phren, ei choed tân, ei bywyd gwyllt, ei bioamrywiaeth a'r manteision i'r tirwedd[34].

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ***Cynllun Rheoli Chalara i Gymru***.[35] Mae gwaharddiad ledled y DU ar symud coed ynn a'u hadau i mewn ac oddi mewn i Brydain Fawr wedi bod mewn grym ers mis Hydref 2012 er mwyn arafu'r lledaeniad a lleihau effaith *Chalara*[36]. Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Nodyn Cyngor Dros Dro yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw achos o glefyd coed ynn gael ei gofnodi ar gronfa ddata ganolog[37].

Roedd *P. ramorum* ym mhob un o wledydd y DU erbyn 2010 ac yn arbennig o amlwg yn ne Cymru a de-orllewin Lloegr[38]. Mae cyfanswm ardal coed llarwydd yng Nghymru yn 22,400 hectar, ac mae dros ei hanner yn rhan o ystad coetir Llywodraeth Cymru[39]. Canfuwyd *P. ramorum* yng Nghymru am y tro cyntaf ym mis Mai 2010 ac ers mis Mehefin 2013 roedd 6,251 hectar o goed llarwydd wedi'u heintio yng Nghymru[40]. Mae hyn yn cyfateb i bron un rhan o bump o'r holl goed llarwydd yng Nghymru. Mae 1,200 hectar o goed llarwydd wedi'u torri gan Gyfoeth Naturiol Cymru ers 2010[41].

Ers mis Hydref 2013, mae Coed Cadw yn bwriadu cwympo 200 hectar yng Nghoedwig Wentwood, Casnewydd, mewn ymateb i'r clefyd[42]. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi neilltuo £2.3 miliwn ar gyfer torri coed a'u hail-blannu coed er mwyn lleihau effaith *P. ramorum*[43]. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pŵer i gyflwyno hysbysiadau Iechyd Planhigion statudol ar berchenogion coetiroedd, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt dorri coed sydd wedi'u heintio i lawr[44].

---

[29] Comisiwn Coedwigaeth, ***Woodland Area, Planting and Restocking, Rhifyn 2013***, Mehefin 2013 [fel ar 28 Mehefin 2013]
[30] Comisiwn Coedwigaeth, ***Ash dieback*** [fel ar 10 Gorffennaf 2013]
[31] Mae achos 'amgylchedd ehangach' yn un a ganfu mewn coed sefydledig yn hytrach na choed ifanc ar safle sydd newydd ei blannu.
[32] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Achos Chalara cyntaf yn yr 'amgylchedd ehangach' yng Nghymru**, Mai 2013 [fel ar 7 Mehefin 2013].
[33] Comisiwn Coedwigaeth, ***Ash dieback*** [fel ar 11 Hydref 2013]
[34] Comisiwn Coedwigaeth, ***Common Ash – franxius excelsior*** [fel ar 11 Hydref 2013]
[35] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Rheoli Chalara Cymru***, Mawrth 2013 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]
[36] Cyfoeth Naturiol Cymru, **Achos Chalara cyntaf yn yr 'amgylchedd ehangach' yng Nghymru**, Mai 2013 [fel ar 7 Mehefin 2013]
[37] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, ***Phytophthora ramorum (Marwolaeth Sydyn y Deri)***, 30 Mehefin 2013.
[38] Comisiwn Coedwigaeth, ***Phytophthora ramorum outbreak map***, Gorffennaf 2010 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]
[39] Cyfoeth Naturiol Cymru, ***Phytophthora ramorum***, [fel ar 10 Gorffennaf 2013]
[40] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, ***Phytophthora ramorum (Marwolaeth Sydyn y Deri)***, 30 Mehefin 2013.
[41] ibid.
[42] Coed Cadw, ***200 hectares of Wales' largest ancient forest to be felled due to tree disease***, 4 Hydref 2013 [fel ar 11 Hydref 13]
[43] Cyfoeth Naturiol Cymru, ***Cyfoeth Naturiol Cymru yn dwysáu'r frwydr yn erbyn clefyd y llarwydd***, 24 Mehefin 2013 [fel ar 10 Gorffennaf 2013]
[44] Cyfoeth Naturiol Cymru, ***Phytophthora ramorum***, [fel ar 10 Gorffennaf 2013]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am goedwigoedd yng Nghymru, cysylltwch â **Nia Seaton** (**nia.seaton@cymru.gov.uk**) o'r Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- **Cyfoeth Naturiol Cymru**
- **Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr**
- **Coed Cadw**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 13/1748**

**Nia Seaton**